



## CYNLLUN LLESIANT LLEOL CEREDIGION

### ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021-22

## Cynnwys

Tudalen

### **RHAN 1 – CEFNDIR**

1.1 Rhagair 3-5

1.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 6

1.3 Datganiad COVID-19 7

### **RHAN 2 – CYD-DESTUN**

2.1 Cyflawni'r Cynllun Llesiant Lleol 8

### **RHAN 3 – GWEITHREDU**

3.1 Fframwaith gweithredu sy'n seiliedig ar le 9 - 11

3.2 Gwella Lles Cymunedol a mynd i'r afael â chaledi yn Aberteifi 12 - 13

3.3 Llesiant yn Llambed 13 - 14

3.4 Aberystwyth Carbon Niwtral a Strategaeth Datgarboneiddio 14 - 17

3.5 Crynodeb o'r Prosiectau Peilot 17 - 18

### **RHAN 4 – CYSYLLTIADAU**

Is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

4.1 Is-grŵp Tlodi 19 – 20

4.2 Grŵp Adsefydlu Ffoaduriaid 20

4.3 Is-grŵp Dyfodol Dwyieithog 20-21

4.4 Ymgynghoriadau a Chyflwyniadau Ychwanegol 21

## RHAN 1– Cefndir

### 1.1 Rhagair


Croeso i Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2021-22. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod am y camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion i gyflawni'r nodau a gyflwynwyd yn ein Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer Geredigion. Mae'n amlinellu'r gwaith a wnaethpwyd gan bartneriaid y BGC er mwyn cyflawni ein 'cyd-ddyletswydd llesiant' i wella llesiant economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol pobl a chymunedau yng Ngheredigion.

O gofio'r heriau sydd wedi parhau dros y 12 mis diwethaf, ac o ganlyniad uniongyrchol i'r Coronafeirws, rydym wedi ceisio gwisgo 'lens Covid' yn ystod yr holl drafodaethau a'r holl gamau a gymerwyd yn ystod y cyfnod diwethaf. Mae cyfarfodydd partneriaethau wedi parhau i gael eu cynnal, a hyn wedi bod yn hanfodol yn ystod y flwyddyn wrth i bartneriaid gytuno ar y cyd i symud i fframwaith sy'n seiliedig ar le yn y cymunedau a dargedir.

Gan adeiladu ar waith cychwynnol y 6 grŵp prosiect, sefydlwyd grwpiau peilot sy'n seiliedig ar le yn Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi a'u cyffiniau. Mae partneriaid wedi gweithio'n ddiflino ac wedi parhau i ddangos eu hymrwymiad a'u cefnogaeth i lesiant trigolion, busnesau, a chymunedau Ceredigion wrth i ni barhau i symud i'r cyfnod adfer.

Dechreuodd y trafodaethau ym mis Gorffennaf 2021 ar y symud hwn i fframwaith gweithredu sy'n seiliedig ar le. Cytunodd yr holl bartneriaid ar fap Ffordd Ymlaen BGC Ceredigion ar gyfer y newid ac mae copi i'w weld isod.

## Map Ffordd Ymlaen BGC Ceredigion ar gyfer Newid i Fframwaith Gweithredu sy'n seiliedig ar le



Yn ystod y flwyddyn a fu, mae'r BGC wedi arwain y cyfnod pontio hwn ac mae Camau 1 a 2 y broses wedi'u cwblhau.

Cwblhawyd Cam 1 yn ystod Gorffennaf/Awst 2021 pan gynhaliwyd holl gyfarfodydd y grwpiau prosiect i orffen gwaith presennol, mapio gwaith parhaus ac awgrymu themâu seiliedig ar le i'r BGC eu treialu dros weddill cyfnod y Cynllun Llesiant.

Dechreuodd Cam 2 ym mis Medi 2021 a phartneriaid y BGC wedi cytuno ar y tri phrosiect peilot seiliedig ar le, sef:

- Iechyd Cymunedol ac Atebion Cymdeithasol i fynd i'r afael â Thlodi a hybu lles – Aberteifi.
- Llesiant yn Llamedd
- Aberystwyth Carbon Niwtral a Strategaeth Datgarboneiddio

Mae blaenoriaethau yn ystod y 12 mis diwethaf, yn gwbl briodol, wedi canolbwyntio ar ble mae ein dylanwad cyfunol yn ychwanegu gwerth y tu hwnt i'r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud fel sefydliadau unigol. Bydd y prosiectau peilot hyn yn sail i waith y BGC ar gyfer y misoedd sy'n weddill yn y Cynllun Llesiant Lleol presennol sydd mewn grym tan ddiwedd mis Mawrth 2023.

Parhau y mae'r ffordd newydd o weithio o bell a orfodwyd arnom i ddechrau arni gan y pandemig ac mae cydweithio a chydgyhyrchu atebion hefyd wedi parhau. Eleni hefyd mae holl bartneriaid y BGC wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â dechrau'r Asesiad o Lesiant Lleol a fydd yn sail i'r Cynllun Llesiant Lleol newydd ar gyfer y cyfnod 2023-28.

Mae partneriaid y BGC wedi cymeradwyo'r Asesiad o Lesiant Lleol ac wedi cymeradwyo'n llawn y dull o weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr rhanbarthol, sef dull sy'n seiliedig ar fynd ati ar y cyd i gynnal asesiadau Llesiant Lleol ar draws tair ardal BGC Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, a Sir Benfro.

Cynhaliwyd gweithdai rhyngweithiol gyda Grwpiau Prosiect BGC Ceredigion yn ystod Haf 2021 a dechreuwyd ar y gwaith o ddadansoddi data yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Ym mis Medi 2021, dadansoddwyd canfyddiadau'r ymgysylltu, a'r BGC wedi derbyn drafft cyntaf yr Asesiad o Lesiant Lleol ym mis Tachwedd 2021.

Ym mis Rhagfyr 2021, rhyddhaodd y BGC ddrafft yr Asesiad o Lesiant Lleol i ymgynghori arno, a hynny wedi dod i ben ym mis Ionawr 2022. Cytunwyd ar yr Asesiad terfynol i'w gyhoeddi.

Bydd yr Asesiad hwn yn sail i'r holl drafodaethau yn y BGC. Mae gwaith eisoes wedi arwain at lunio amcanion drafft y cytunwyd arnynt gan y BGC yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2022 a bydd y rhain yn rhoi'r fframwaith i'r cynllun newydd yn y dyfodol.

Targedwyd aliniad llawn rhwng gwaith presennol y BGC a'r amcanion drafft ar gyfer y cynllun Llesiant Lleol newydd ar gyfer 2023-28, gyda phartneriaid y prosiectau peilot sy'n seiliedig ar le yn llywio'r asesiad ac yn rhan o'r broses ymgynghori. Anogir partneriaid i ymgynghori'n fewnol a defnyddio eu cysylltiadau allanol i ehangu'r ymgynghoriad trwy ddefnydd effeithiol ar eu rhwydweithiau.

Dymunwn gydnabod yr ymrwymiad a'r cymorth a ddangoswyd gan ein holl bartneriaid, gan ddiolch iddynt am barhau i sylweddoli pwysigrwydd cydweithio er budd pawb i wella llesiant cymunedau yng Ngheredigion.

**Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion**

## 1.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi diben cyffredin sy'n rhwymo mewn cyfraith ar ffurf saith Nod Llesiant a phum Dull o Weithio. Cynlluniwyd y rhain i gynorthwyo wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n bodloni anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

### 5 dull o weithio

#### Hirdymor



Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

#### Atal



Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

#### Integreiddio



Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

#### Cydweithio




Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

#### Cynnwys



Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

### Y saith nod llesiant



### 1.3 Datganiad COVID-19

O ganlyniad uniongyrchol i bandemig y Coronafeirws, adolygwyd rhoi camau gweithredu'r Grwpiau Prosiect ar waith ac yn 2021/22 dechreuodd partneriaid y BGC ar ffordd newydd o weithio sy'n seiliedig ar leoedd. Drwy fabwysiadu fframwaith sy'n pwysleisio asesiad lleol mae prosiectau peilot wedi gallu rhoi ffocws i'w gwaith er budd uniongyrchol cymunedau dethol. Mae'r pontio hwn wedi digwydd dan arweiniad gwerthoedd y 5 dull o weithio a'r 7 nod llesiant cenedlaethol, ac wedi'i ysgogi gan gynlluniau gweithredu a gyd-gynhyrchwyd sydd â'r nod o fynd at wraidd anghenion y cymunedau. Mae Grwpiau Peilot wedi parhau i gydweithio ar-lein trwy gyfarfodydd o bell ac mae'r holl bartneriaid wedi canolbwyntio ar amgylchedd o barhau i weithredu er gwaethaf heriau parhaus y pandemig. Mae'r heriau parhaus hyn wedi arwain at lunio fframwaith partneriaeth sydd wedi ceisio gwella cydnerthedd cymunedau ac unigolion ar bob adeg tra hefyd wrth gwrs yn cydnabod yn llawn bod yr amgylchedd gweithredu yn newid i bartneriaid a thrigolion. Mae cynlluniau gweithredu wedi ceisio nodi a chydabod yr heriau cymdeithasol ac economaidd cynyddol sy'n wynebu cymunedau ac wedi ceisio mynd ati'n gydlynol i ymdrin â hwy. Mae gwaith hefyd wedi ceisio manteisio ar yr holl gyfleoedd a nodwyd i gynorthwyo â darparu gwasanaethau a llywio cynllunio hirdymor yn gynnar yn y broses. Gwneir hyn oll yng nghyd-destun gwella llesiant a mynd i'r afael â chaledi, anghydraddoldeb a newid yn yr hinsawdd.

Yn ystod 2021/22 mae'r holl bartneriaid wedi parhau i wynebu heriau wrth ddarparu gwasanaeth, ac aelodau staff o sefydliadau partner yn dal i fod wedi'u hadleoli i rolau eraill. Mae'r cyd-destun yn newid yn araf ac addasiadau allweddol yn dod yn flaenoriaeth wrth i'r angen am gamau lliniaru brys leihau. Mae hon yn broses o ddysgu ac mae partneriaid y BGC wedi cydnabod yr angen i gael cydbwysedd gweithredol rhwng yr ymateb presennol a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r dull seiliedig ar leoedd wedi manteisio'n llawn ar y cyfle hwn ac mae gwaith a ddechreuwyd yn ystod 2021/22 yn llywio'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan ddefnyddio ystod eang o brofiadau a chamau gweithredu sydd dan ddylanwad uniongyrchol yr effeithiau y mae'r pandemig wedi'u gosod ar gymunedau.

Mae heriau newydd a chynyddol o flaen trigolion a chymunedau, a'r heriau hynny sydd bellach yn darparu'r fframwaith gweithredu a'r blaenoriaethau ar gyfer y prosiectau peilot sy'n seiliedig ar leoedd penodol.

## RHAN 2 – Cyd-destun

### 2.1 Cyflawni'r Cynllun Llesiant Lleol

Mae'r Cynllun Llesiant Lleol, a gytunwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Ceredigion (BGC) ar 16 Ebrill 2018, bellach yn cael ei gyflawni trwy gyfrwng Grwpiau Prosiect sy'n seiliedig ar leoedd, sy'n cynnwys swyddogion perthnasol ar draws partneriaid y BGC. Mae'r Grwpiau Prosiect hyn sy'n seiliedig ar leoedd yn manteisio ar sgiliau ac arbenigedd unigolion sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol berthnasol ac sy'n ceisio cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau ar draws Ceredigion.

Mae'r prosiectau peilot hyn yn brosiectau trawsbynciol ac yn anelu at fynd i'r afael yn holistig â gofynion lleol dan arweiniad y nodau llesiant:

**Galluogi cymunedau i ffynnu, i fod yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig trwy gefnogi'r broses o drawsnewid rhagolygon economaidd.**

Gwellu'r seilwaith ffisegol a digidol i gefnogi datblygiad economaidd, gan gynnwys cartrefi addas a fforddiadwy.



**Creu amodau addas fel y gall cymunedau gefnogi unigolion o bob cefndir i fyw bywydau annibynnol a chyflawn.**

Datblygu a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol a chyfleoedd diwylliannol ac ieithyddol er mwyn gwella llesiant a sicrhau annibyniaeth.



**Creu cymunedau amgylcheddol gyfrifol a diogel sy'n medru addasu ac ymateb i effeithiau newid hinsawdd.**

Cefnogi cymunedau i wella eu perthynas â'r amgylchedd naturiol a pharatoi at dywydd eithafol.



**Galluogi pob plentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd.**

Cefnogi parodrwydd rhieni drwy ymyrraeth gynnar, goresgyn anghydraddoldeb, a hybu dysgu cyfannol.

**Galluogi pobl i greu ac i fanteisio ar gyfleoedd ac ymateb i heriau drwy gydol eu bywydau.**

Gwellu sgiliau galwedigaethol a sgiliau bywyd, meithrin hyder a galluogi pobl i ymateb yn gadarnhaol i newid.



**Galluogi pobl i fyw bywydau gweithgar, hapus ac iach.**

Cefnogi iechyd corfforol a meddyliol a gwella llesiant drwy hyrwyddo ffyrdd iach o fyw.



## RHAN 3 – Gweithredu

### 3.1 Fframwaith gweithredu sy'n seiliedig ar le

Yng nghyfarfod y BGC ym mis Gorffennaf 2021, ar ran eu Grwpiau Prosiect priodol, cododd Cadeiryddion y chwe Grŵp Prosiect fater cynlluniau'r Grwpiau Prosiect wrth symud ymlaen a'u cyfle i adlewyrchu'r newid mewn ffocws a mynd ati'n uniongyrchol i lywio'r Cynllun Llesiant newydd ar gyfer 2023-28. Awgrymwyd bod angen i'r ffocws nawr fod ar sut y gellir defnyddio'r cyfnod sy'n weddill yn y cynllun presennol fel cyfnod pontio i gynyddu gymaint ag y bo modd effaith a chyfraniad holl bartneriaid y BGC. Nodwyd, oherwydd COVID-19, fod capasiti wedi bod yn broblem fawr yn y Grwpiau Prosiect a bod angen i'r holl waith yn y dyfodol adlewyrchu'n llawn bwysigrwydd partneriaeth fel elfen allweddol wrth adfer. Awgrymwyd y gallai fframwaith gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd fod o fudd i weithredu yn y dyfodol. Gofynnwyd am farn y Grwpiau Prosiect presennol yn ystod y cyfnod Gorffennaf/Awst 2021 a daeth Cadeiryddion y Grwpiau at ei gilydd ar 6 Medi. Yng nghyfarfod nesaf y BGC a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021, cytunodd yr aelodau i sefydlu tri phrosiect peilot sy'n seiliedig ar le penodol, yn seiliedig ar drafodaethau cyfochrog aelodau'r BGC ar yr ardaloedd cymunedol i'w defnyddio ar gyfer yr Aseiad o Lesiant Lleol.

Yng nghyfarfod y BGC ym mis Gorffennaf 2021, ystyriodd yr aelodau adroddiad manwl o'r enw "Diffinio Ardaloedd Cymunedol yng Ngheredigion" ac yna cytunwyd ar y naw Ardal Allbwn Uwch Ganol (MSOA) i fod yr ardaloedd lefel-is sy'n adlewyrchu'r gwahaniaethau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ledled y sir, ynghyd â darparu gwybodaeth ystadegol gymaradwy i ardal ddaearyddol is.

Yng nghyd-destun yr uchod sefydlwyd tri phrosiect peilot newydd sy'n seiliedig ar le ar gyfer trefi marchnad Aberteifi, Llambled ac Aberystwyth a grwpiau peilot wedi'u sefydlu ym mhob un o'r ardaloedd. Mae'r ystyriaethau ar gyfer Llambled ac Aberteifi yn gwbl adfyfyriol ac er bod hyn hefyd yn ystyriaeth allweddol i Aberystwyth, rhaid cydnabod hefyd bod gwaith blaenorol i ystyried sefydlu rhwydwaith gwresogi yn y dref wedi rhoi cyfle i gael ystyriaeth fanwl.

Penodwyd cadeiryddion ar gyfer pob peilot gan y Bwrdd, sef: Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion ar gyfer peilot Aberteifi, Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer peilot Llambled a Phrifysgol Aberystwyth ar gyfer peilot Aberystwyth.

Er mwyn cynorthwyo â'r broses o drosglwyddo o'r model 6 grŵp prosiect presennol i'r 3 phrosiect peilot seiliedig ar le, cynhaliwyd cyfarfodydd cyntaf y prosiectau peilot newydd yn ystod trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2021-22. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y gwaith a wnaed yn flaenorol, deall y dull seiliedig ar le a chytuno ar ddyheadau ar gyfer y dyfodol. Yng nghyd-destun y trafodaethau hyn, mae cynlluniau gweithredu newydd wedi dechrau dod i'r fei ar gyfer pob ardal. Gan weithio ochr yn

ochr â'r Asesiad o Lesiant Lleol, mae'r blaenoriaethau hyn hefyd nawr yn llywio'r gwaith o greu'r cynllun Llesiant newydd ar gyfer 2023-28. Mae effaith y broses hon yn hanfodol o ran cynnwys gweithgarwch partneriaeth a manteisio ar gryfder partneriaethau. Yn ogystal â phenodi Cadeiryddion ar gyfer pob grŵp seiliedig ar le, mae'r BGC hefyd wedi penderfynu penodi Hyrwyddwr peilot wedi'i ethol yn ddemocrataidd i gymryd cyfrifoldeb am gyfrannu mewnwelediad a gwybodaeth leol i drafodaethau. Ynghyd â sefydlu'r grwpiau prosiect sy'n seiliedig ar le, a chynnwys partneriaid sydd â chyfrifoldeb lleol am ddarparu gwasanaethau, mae'r pwyllgorau llywio mewn sefyllfa gref i adlewyrchu anghenion lleol a chynnig atebion lleol i drigolion a chymunedau.

Y prosiect peilot cyntaf sy'n seiliedig ar le yw'r un a sefydlwyd yn Aberteifi ac yn dilyn trafodaethau cychwynnol gan y Pwyllgor Llywio a dechrau ar asesiad sylfaenol cychwynnol o ardal Aberteifi cytunodd ei aelodau y dylai ei enw dros dro adlewyrchu'n gywir ei amcan i fynd i'r afael â chaledi yn y dref farchnad. Roedd yr adroddiad gwaelodlin a luniwyd gan Dîm Perfformiad ac Ymchwil Cyngor Sir Ceredigion, ar ran y BGC, yn disgrifio'r prif heriau sy'n wynebu'r ardal o ran cyflogaeth, incwm, tai a diogelwch cymunedol a hynny wedi arwain at gytuno ar ei deitl, "Gwella lles y gymuned a mynd i'r afael â chaledi yn Aberteifi". Ceir rhagor o fanylion am waith y cynllun peilot hwn yn **Rhan 3.2**.

Mae'r ail grŵp prosiect peilot sy'n seiliedig ar le wedi'i sefydlu yn Llanbedr Pont Steffan ac roedd ffocws cychwynnol hwn ar sefydlu'r Ganolfan Llesiant yn y dref. Roedd gwaith blaenorol eisoes wedi'i wneud i nodi'r gofod ffisegol oedd ei angen ar gyfer y ganolfan, comisiynu penseiri ac amlinellu'r gyfres o wasanaethau cymorth y gellid eu darparu ar y cyd o'r lleoliad ar ran y gymuned. Yn dilyn trafodaethau'r bartneriaeth, roedd y peilot yn barod ar gyfer penodi contractwyr a'r gwaith wedi canolbwyntio ar y manteision y gallai addasu'r gofod at ddibenion gwahanol esgor arnynt. Ystyrid hefyd fanteision a chysylltiadau ehangach trwy harneisio nodweddion cadarnhaol a chryfderau ardal Llamed. Ceir rhagor o fanylion am waith y cynllun peilot hwn yn **Rhan 3.3**.

Bydd y ddau grŵp peilot hyn sy'n seiliedig ar le yn mynd ati'n holistig i ystyried y gymuned ac yn ceisio mynd i'r afael â'r ystod o amcanion llesiant.

Mae'r trydydd grŵp peilot sy'n seiliedig ar le yn defnyddio dull ychydig yn wahanol oherwydd yn ogystal â'i ystyriaethau daearyddol o fewn tref Aberystwyth mae ganddo sector o ddi-ddordeb sydd wedi'i ddiffinio'n dda ym maes pellgyrhaeddol ac arbenigol newid hinsawdd. Mae'r cynllun peilot hwn bellach wedi'i sefydlu yn Aberystwyth ac mae'n canolbwyntio ar yr ystyriaethau amgylcheddol o geisio sicrhau bod Aberystwyth yn garbon niwtral a chael strategaeth datgarboneiddio ar gyfer yr ardal. Gan adeiladu ar waith blaenorol a wnaed i fynd i'r afael â'r amcan llesiant o greu cymunedau sy'n amgylcheddol ymatebol a diogel sy'n gallu addasu ac ymateb i effeithiau newid yn yr hinsawdd, mae'r cynllun peilot hwn wedi ceisio ystyried yr agenda newid yn yr hinsawdd

ar yr un pryd â chanolbwyntio ar yr heriau a'r cyfleoedd yn yr ardal ddaearyddol benodol hon. Mae gwaith dichonoldeb parhaus i sefydlu rhwydwaith gwresogi yn y dref hefyd wedi dylanwadu ar y gwaith hwn. Galwyd am gefnogaeth arbenigol partneriaid y BGC a chytunwyd y bydd yn adeiladu ar ddyheadau ac ymrwymadau strategol partneriaid unigol i dargedu statws carbon sero net. Ceir rhagor o fanylion am waith y peilot hwn yn **Rhan 3.4**.

Bydd pob un o'r tri grŵp peilot hyn sy'n seiliedig ar le penodol yn adeiladu ar gyfoeth gwybodaeth a dealltwriaeth holl bartneriaid y BGC, a byddant yn ystyried canlyniadau gwaith ymchwil blaenorol ac yn adfyfrio ar sefyllfa bresennol y Sir wrth iddi gychwyn ar ei hadferiad o Covid-19. Bydd y gwaith hefyd yn cyd-fynd yn llawn â'r Asesiad diweddar o Lesiant Lleol.

Hyd yma mae'r gwaith a wnaed wedi tynnu ar yr ystod eang o arbenigedd a ddaeth gan y BGC drwy'r pedwar partner statudol sef:

- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae'r BGC hefyd yn croesawu cyfranogiad ehangach partneriaid ychwanegol sy'n cymryd rhan ar ran y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, sef:

- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol
- Y Gwasanaeth Prawf
- Un Llais Cymru
- Heddlu Dyfed-Powys
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Prifysgol Aberystwyth
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Coleg Ceredigion

Ar ôl asesu'r gwaith a wnaed hyd yma, effeithiau'r pandemig a'r themâu sy'n codi o'r Asesiad newydd, mae'r grwpiau newydd o fis Rhagfyr 2021 bellach wedi pennu blaenoriaethau ar gyfer y tair cymuned ddaearyddol dan sylw sy'n seiliedig ar le yn Aberteifi, Llambod ac Aberystwyth. Mae gan bob un flaenoriaethau sy'n adlewyrchu'r ardal a bydd eu gwaith yn parhau i lywio a chryfhau'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i lunio'r Cynllun Llesiant Lleol newydd ar gyfer y cyfnod 2023-28.

## 3.2. Gwella Lles Cymunedol a mynd i'r afael â chaledi yn Aberteifi

### Cyd-destun

Mae adborth o'r Grwpiau Prosiect wedi nodi cyfle i ddatblygu cynllun peilot sy'n seiliedig ar le a fydd yn canolbwyntio ar ddeall yr heriau sy'n wynebu dwy o wardiau mwyaf difreintiedig y Sir, yn Aberteifi. Byddai'r peilot hwn hefyd yn ceisio chwilio am gyfleoedd i'r cymunedau lleol hyn mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau, gan asesu'r potensial ar gyfer dyblygu atebion ar draws cymunedau eraill yn y Sir. Cynhelir asesiad manwl trwy asesu anghenion ABCD (Datblygu Cymunedol yn Seiliedig ar Asedau) a rhoddir sylw penodol i'r rhyngberthynas rhwng tlodi, iechyd ac ystyriaethau cymdeithasol. Bydd y cynllun peilot hwn yn cyfuno, yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar waith sydd wedi'i ddechrau gan bartneriaid y BGC a bydd yn cyd-fynd â gwaith yn y dyfodol wrth geisio cael cydweddiad strategol â rhaglenni a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae ystyriaethau'r grŵp peilot hwn sy'n seiliedig ar le yn canolbwyntio'n gadarn ar wella lles y gymuned a mynd i'r afael â chaledi yn Aberteifi ac mae partneriaid yn parhau i gydweithio i nodi ystod o gamau integredig i wella'r cyfleoedd sydd ar gael i'r holl breswylwyr.

### Y prif weithredu a wnaed yn 2021/22

Mae gwaith cychwynnol a wnaed yn Aberteifi wedi canolbwyntio ar y prif gamau canlynol: -

- Mapio
- Buddsoddi
- Targedu

Mae mapio asedau ac adnoddau wedi rhoi ciplun o'r hyn sydd ar gael yn y dref a'r cyffiniau ac yn sail i'r gwaith hwn mae asesiad meincnodi o'r enw "Gwella Lles y gymuned a mynd i'r afael â chaledi yn Aberteifi." Mae'r gwaith hwn yn ategu gwaith blaenorol sydd wedi bod yn rhan o strategaeth ar gyfer y Sir gyfan i ddatblygu 6 chynllun lle, un ar gyfer pob tref farchnad. Mae gwaith cychwynnol, sef casglu tystiolaeth gefndir, wedi'i wneud yn Aberteifi ac mae hyn wedi arwain at lunio'r ddogfen ddrafft, dan arweiniad Cyngor y Dref. Mae'r gwaith mapio ac asesu ychwanegol bellach wedi'i wneud i gefnogi ymhellach gynllun lle Aberteifi ac mae hwn yn rhoi trosolwg o'r dangosyddion economaidd a chymdeithasol allweddol sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y dref farchnad gyda golwg iddynt lywio blaenoriaethau'r grŵp i'r dyfodol.

Nodwyd bod heriau caledi allweddol i'w cael yn y gymuned, ac Aberteifi wedi'i nodweddu i fod ag amddifadedd difrifol o ran incwm, cyflogaeth a diogelwch cymunedol. Dengys y data yn glir fod caledi yn amlygu ei hun mewn sawl ffordd yn y gymuned a gwelwyd bod angen am ystod o ymyriadau a gwasanaethau i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae bylchau wedi'u nodi o ran darpariaeth gwasanaethau a'r grŵp wedi ystyried effaith y bylchau hyn ar y dyfodol. Cymerwyd camau i fynd i'r afael â

phryderon ac mae partneriaid bellach yn cydweithio er mwyn gwella'r gwasanaethau presennol, rhannu gwybodaeth, dylanwadu ar raglenni gwaith a ffrydiau ariannu'r dyfodol a thargedu darpariaeth yn y dref farchnad.

Sefydlwyd grwpiau gorchwyl i gefnogi'r gwaith ac mae blaenoriaethau wedi eu gosod ar gyfer mapio rôl uniongyrchol partneriaid yn y dref, rhannu gwybodaeth ariannu, cydgyfrannu adnoddau a blaenoriaethu gweithredu lleol. Mae rhwydweithiau wedi'u nodi gyda'r bwriad o ddylanwadu ar sicrhau cymorth lleol ac mae partneriaid wedi cytuno i gydweithio ar ystod o gamau gweithredu er mwyn adlewyrchu nodweddion allweddol economi gylchol.

Mae strategaethau cyfredol yn rhoi cyd-destun i'r gwaith datblygu yn Aberteifi ac mae asesiad o'r strategaethau hyn wedi nodi'r angen i'r gymuned dderbyn ymyrraeth gynnar gyda'r pwyslais yn amlwg ar gamau ataliol.

Gan weithio mewn partneriaeth a chael cyfranogiad cryf o'r 3ydd sector yn ystod 2021-22, mae'r grŵp wedi rhoi pwyslais cadarn ar bwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned, cydgynhyrchu atebion a phwysigrwydd cynyddol hanfodol harneisio cryfder capasiti gwirfoddolwyr i adeiladu gwydnwch parhaus ar draws y partneriaid a rhyngddynt. Bydd gwaith dros y cyfnod nesaf yn canolbwyntio ar gynlluniau a nodwyd gan y gymuned a phartneriaid y BGC, gan gynnwys syniadau penodol sydd â'r nod o gysylltu lleoliadau daearyddol yn y dref, creu gwell cyfleusterau awyr agored, gwella'r defnydd o fannau gwyrdd at ddibenion hamdden, gwell llwybrau hygyrch ar hyd yr afon ac ystyried canolbwynt cymunedol yn seiliedig ar gelf. Bydd gweithgarwch yn parhau i harneisio cryfderau unigol a chyfunol partneriaid ac yn ymdrechu i gydgynhyrchu a chyflawni camau gweithredu penodol er mwyn cydnabod cryfderau'r gymuned leol a cheisio mynd i'r afael â chaledi trigolion. Bydd cyd-ddysgu pellach, trosglwyddo gwybodaeth, cyllidebu cyfranogol a darparu gwasanaethau ar y cyd yn sail i'r flaenraglen waith ar gyfer y cynllun peilot hwn gyda'r nod o greu cyd-weledigaeth ar gyfer y dref ac amlinellu manteision unigryw mynd i'r afael â chaledi drwy ddull sy'n seiliedig ar le.

### 3.3 Llesiant yn Llanbed

#### Cyd-destun

Mae'r gwaith a wnaed ar sefydlu Canolfan Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan wedi cyrraedd cam datblygedig a hithau bellach yn briodol cynnwys partneriaid a'r gymuned ehangach ymhellach yn y prosiect. Bydd y cynllun peilot hwn sy'n seiliedig ar le yn rhoi llwyfan i lywio cynlluniau a chroesawu mewnbyn partneriaid i ychwanegu gwerth ac osgoi dyblygu yn y ddarpariaeth gwasanaeth. Mae partneriaid wedi cytuno yn flaenorol y gellir gwneud gwelliannau'n lleol trwy rannu asedau ac adnoddau yn effeithiol a thrwy fanteisio ar y cyfle i gydgynhyrchu gwasanaethau cymunedol. Mae'n hollbwysig deall tirwedd gwasanaethau lleol, nodi asedau ac adnoddau a dod i gytundeb ar y blaenoriaethau ar gyfer datblygu sectorau, ynghyd â chofnodi'r canlyniadau a gyflawnwyd o'r gwaith hwn gan y gall fod yn sail i ddatblygiadau llesiant yn y dyfodol ar draws y Sir.

Yn ogystal ag allbynnau uniongyrchol y peilot hwn a thrwy waith y BGC a'i bartneriaid, mae cyfleoedd hefyd i gysylltu'r peilot â datblygiadau lleol eraill megis Hwb Ymaddasu Llambod, Tir Glas a'r blaenoriaethau a nodwyd gan yr asesiad ar asedau a wnaed yng Nghynllun Lle Llambod.

### **Y prif weithredu a wnaed yn 2021/22**

O'i gyfarfod cyntaf un, sylweddolai'r Grŵp Llywio hwn ei rôl a'i gyfrifoldeb i integreiddio gweithgareddau yn y gymuned leol gan ganolbwyntio'n benodol ar iechyd a lles trigolion Llambod a'r cyffiniau. Trwy sefydlu rhwydwaith cryf, mae trafodaethau wedi arwain y grŵp i ystyried beth y gallant ei wneud gyda'i gilydd i wneud gwahaniaeth penodol i lesiant yn Llambod a'r ardaloedd cyfagos.

Mae'r trafodaethau hyn wedi canolbwyntio ar iechyd meddwl, iechyd cymdeithasol ac iechyd emosiynol; bwyd, lles corfforol ac amgylcheddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwelwyd bod y themâu hyn yn rhai allweddol i ddatblygiad y dref yn y dyfodol tra hefyd yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan bartneriaid unigol. Nodwyd yn glir bod yn rhaid i'r peilot hwn ganolbwyntio ar gamau gweithredu ar y cyd ac ymdrechu i greu datrysiadau wedi'u cydgynhyrchu er budd trigolion Llambod a'r cyffiniau. Mae camau gweithredu cychwynnol wedi ceisio sicrhau bod ystod eang o bartneriaid yn cael eu cynnwys, gan adlewyrchu gweithgareddau sydd eisoes yn cael eu cynnal yn y dref a'r pentrefi a'r cymunedau cyfagos. Bydd hyn yn sicrhau bod lleisiau gwahanol elfennau'r gymuned yn cael eu clywed a bod blaenoriaethau'r dyfodol yn ategu gwaith presennol.

Mae asesiad cychwynnol wedi arwain at lunio cynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar ymchwilio i gyfathrebu lleol, cysylltu â Chynllun Lle Llambod, asesu argymhellion adroddiad dichonoldeb Ailgyylltu â Natur ar gyfer cynigion prosiect yn Llambod a'r cyffiniau a chefnogi pobl o bob oed yn yr ardal i gysylltu o'r newydd â natur a'r amgylchedd naturiol drwy alluogi mynediad i fwy o fannau gwyrdd agored.

Bydd yr holl bartneriaid yn parhau i adolygu eu blaenoriaethau ac ystyried "Beth sy'n mynd yn dda?", "Beth rydyn ni'n poeni amdano?" a "Pa dri pheth sydd angen i ni eu gwneud i wneud gwahaniaeth?". Bydd canlyniad yr asesiad hwn yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ddatblygiad parhaus y cynllun gweithredu dros y cyfnod nesaf wrth iddo fod yn sail i'r cynllun Llesiant newydd ar gyfer 2023-28.

## **3.4 Aberystwyth Carbon Niwtral a Strategaeth Datgarboneiddio**

### **Cyd-destun**

Mae gwaith datblygu pwysig eisoes wedi dechrau gan Brifysgol Aberystwyth i ystyried casgliad o gamau gweithredu yn Aberystwyth gyda'r nod pwysig o leihau carbon.

Mae'r gwaith wedi cyrraedd cam lle mae cefnogaeth partneriaid yn hanfodol ac mae cefnogaeth a chyfraniad uniongyrchol y BGC yn hollbwysig i alluogi'r prosiect i symud ymlaen. Gan fod amryw o gynlluniau gweithredu carbon sero net erbyn 2030 wrthi'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd, mae cyfle wedi'i nodi i bartneriaid ddod at ei gilydd i gefnogi cynllun peilot sy'n seiliedig ar le yn Aberystwyth. Mae'r gwaith a wnaed hyd yma wedi deall a chydabod yn eang bod angen cyfres o gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r targed heriol hwn er mwyn i bawb gyda'i gilydd gyfrannu at ei gyflawni. Nodwyd hefyd y gallai'r peilot hwn elwa o strategaeth a luniwyd ar y cyd gan y BGC a fyddai'n alinio blaenoriaethau i roi'r camau hyn ar waith.

### **Y prif weithredu a wnaed yn 2021/22**

Prif fwriad y Grŵp Peilot hwn yn dal yw cefnogi cymunedau a gwella eu perthynas â'r amgylchedd naturiol. Blaenoriaethwyd y nod hwn gan y BGC gan y deallir yn eang bod newid hinsawdd yn fygythiad cydnabyddedig i'n dyfodol hirdymor, felly hefyd effaith bywyd modern ar ein hasedau naturiol. Bydd y gwaith yn mynd ati mewn dull sy'n seiliedig ar le gan ganolbwyntio ar Aberystwyth ac ystyried, ymhlith eraill, Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni Llywodraeth Cymru, Cynlluniau Ynni Canolbarth Cymru, a'r canllawiau sy'n dod i'r fei ynghylch llunio Cynlluniau Ynni Lleol.

Ar gyfer 2021/22, i ddechrau arni amlinellodd y grŵp hwn y camau gweithredu a gyd-luniwyd ar gyfer y Grŵp Peilot hwn fel a ganlyn:

- Cynnal astudiaeth ddichonoldeb wedi'i diweddarau ar gyfer y prosiect Rhwydwaith Gwresogi Ardal sydd wedi'i leoli ar Gampws y Brifysgol, Penglais, Aberystwyth.
- Rhannu dyheadau Sero Net, cyfnewid enghreifftiau o arfer da a chefnogi camau gweithredu unigol a chyfunol i hyrwyddo tref garbon niwtral.
- Cydweithio ar gynllun sy'n cynnwys cymysgedd o fesurau lliniaru ac addasiadau sydd eu hangen i sicrhau bod yn garbon niwtral.
- Deall y cyd-destun cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer cynlluniau ynni sy'n eang eu cwmpas.

Gan fod y pwyslais cychwynol ar gyfer y grŵp hwn yn seiliedig yn bennaf ar brosiect peilot rhwydwaith gwresogi ardal ym Mhenglais, roedd aelodaeth y grŵp yn adlewyrchu'r gofyniad i bartneriaid gadarnhau eu hymrwymiad a'u cefnogaeth. Nid oedd hwn yn brosiect cwbl newydd gan fod gwaith blaenorol wedi'i wneud rai blynyddoedd yn ôl i ddechrau ystyried ei ddatblygiad. Mae astudiaeth ddichonoldeb gychwynol wedi'i chwblhau, fodd bynnag, gyda chefnogaeth aelodau'r BGC, a chytunwyd yn awr ei bod yn bryd gwneud rhagor o waith ar y prosiect er mwyn datblygu'r cyfleoedd a geid yn sgil ei weithredu. Rhoddwyd ystyriaeth i rôl a chyfrifoldeb partneriaid yn y gwaith hwn a nodwyd bod angen cynnal astudiaeth ddichonoldeb wedi'i diweddarau er mwyn symud ymlaen. Roedd angen diweddarau cyfrifiadau ariannol

a chael adnoddau i alluogi'r gwaith hwn i fynd rhagddo. Er mwyn sicrhau'r pecyn cyllid hwn, cytunodd y partneriaid allweddol, sef Prifysgol Aberystwyth, Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, i fwrw ymlaen a chael ymrwymiad ffurfiol eu sefydliadau priodol. Byddai hyn wedi arwain at ymrwymiad teiran i'r astudiaeth ddichonoldeb, gan alluogi bwrw ymlaen â'r astudiaeth ddichonoldeb newydd. Fodd bynnag, o ganlyniad i ymgynghori pellach gyda BEIS (Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) sicrhawyd cyllid ar gyfer yr adroddiad dichonoldeb.

Bydd canlyniad yr astudiaeth ddichonoldeb yn arwain y prosiect peilot hwn ymhellach ac mae cynnydd bellach yn cael ei fonitro gan grŵp gorchwyl bychan.

Mae'r blaenoriaethau ychwanegol a nodwyd gan y grŵp peilot newydd hwn bellach wedi arwain at ehangu aelodaeth y grŵp ac mae trafodaethau wedi canolbwyntio ar gyfnewid syniadau, rhannu dyheadau a nodi mesurau lliniaru ac addasiadau sydd â'r nod o gyflawni targedau carbon niwtral. Arweinir y gwaith gan y fframwaith strategol sy'n seiliedig ar bolisiâu a rhaglenni cenedlaethol a rhanbarthol ac mae partneriaid bellach yn symud ymlaen i ystyried strategaeth leol a gynhyrchwyd ar y cyd. Mae'r partneriaid wedi blaenoriaethu mapio ymrwymadau presennol, gweithgareddau cyfredol a rhannu profiad o waith a gyflawnwyd hyd yma, ac maent yn rhyngweithio fwyfwy ag ymgynghoriadau yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

Enghraifft o ymwneud ag ymgynghoriad cenedlaethol yw'r cysylltiadau â'r sgwrs genedlaethol a ysgogwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar ddyfodol amgylchedd naturiol Cymru. Mae partneriaid y BGC wedi ymgysylltu â'r sgwrs genedlaethol hon ac wedi ceisio alinio syniadau'r dyfodol yn llawn â hi. Gan annog trafodaeth, trwy gyfres o senarios yn seiliedig ar y cwestiwn allweddol "Beth ydyn ni ei eisiau ar gyfer ein hamgylchedd naturiol?", rhoddwyd cyfle i'r grŵp hwn ystyried y materion hyn mewn cyd-destun sy'n seiliedig ar le. Mae trafodaethau wedi ymestyn i gydnabod yr angen am ystod o gamau gweithredu ar y cyd gyda golwg ar wella canlyniadau yn y dyfodol.

Mae gwaith hefyd wedi cael ei wneud i gysylltu â Chynllunio Ynni Llywodraeth Cymru a'u gweledigaeth ar gyfer system ynni yn y dyfodol sydd wedi'i seilio'n gadarn ar dair colofn sef, trydan, gwres a thrafnidiaeth. Yn wir, mae cwmpas cynllun ynni yn ymwneud â thrafnidiaeth carbon isel, datgarboneiddio gwres a phŵer a chyflenwadau clyfar, a bydd trafodaethau ar gyfer y cynllun peilot hwn yn adlewyrchu hyn. Mae'r cynllun peilot sy'n seiliedig ar le yn ategu'r Cynllun Ynni Ardal Leol (LAEP) sy'n helpu i ddeall beth sydd angen digwydd, ble ac erbyn pryd ac yn cydnabod yn llawn fod pob lle yn wahanol – y bobl, y stoc tai, daearyddiaeth a dyheadau.

Gyda'r gwahaniaethau hyn wedi'u nodi ar lefel leol, mae gwaith y cynllun peilot hwn sy'n seiliedig ar le hefyd wrth gwrs yn cael ei adlewyrchu yn y cysylltiadau, trwy bartneriaid unigol, â gwaith Tyfu Canolbarth Cymru a Strategaeth Ynni Canolbarth



Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi amlinellu'n glir y broses cynllunio ynni gyda chamau gweithredu wedi'u nodi ar gyfer gwaelodlin, gweledigaeth a blaenoriaethau, modelu llwybr, effaith economaidd a rhannu a chymdeithasu ac arweiniodd hyn at nodi manteision posibl sylweddol ar draws y rhanbarth. Mae'r manteision hyn yn cynnwys integreiddio camau gweithredu, cyfranogiad ac atebolwydd democrataidd, gweithredu ar sail tystiolaeth, arloesi, buddsoddi a grymuso. Mae hyn wrth gwrs ar sail ranbarthol ac amlinellwyd gweledigaeth ar gyfer 2035 fel a ganlyn: "I gyflawni system ynni ddi-garbon sy'n darparu manteision cymdeithasol ac economaidd, dileu flodi tanwydd, cysylltu Canolbarth Cymru yn well â gweddill y DU a chyfrannu at ddatgarboneiddio ehangach yn y DU."

Mae dealltwriaeth leol yn sail i'r peilot seiliedig ar le yn Aberystwyth gan ei fod hefyd yn cofleidio'r cyd-destun lleol a'r camau nesaf ar gyfer cynllun lle Aberystwyth. Mae ymchwil blaenorol dan arweiniad y BGC wedi bwydo i mewn i syniadau a amlinellwyd yng nghynllun lle Aberystwyth, sef dogfen wedi'i harwain gan y Cyngor Tref sy'n manylu ar ddyheadau ar gyfer datblygu'r dref yn y dyfodol. Mae dyheadau cychwynol erbyn hyn yn arwain at ddatblygu cynigion prosiect cadarn a fydd yn cael eu categoraiddio yn unol â pha mor barod ydynt i gael eu gweithredu.

### **3.5 Crynodeb o'r Prosiectau Peilot**

Mae cynnal cyfarfodydd partneriaeth trwy ddulliau rhithwir wedi arwain at fwy o gynrychiolaeth a chyfranogiad gan y rhan fwyaf o bartneriaid. Erbyn hyn mae pob Grŵp Peilot gyda'i gilydd wedi llunio Cynlluniau Gweithredu newydd sydd wedi cael eu hystyried drwy lens COVID. Mae partneriaid wedi dangos ymrwymiad pellach i dasgau unigol trwy rôl weithredu uniongyrchol barhaus trwy Grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

Mae Grwpiau Peilot yn cwrdd bob chwarter ac maent yn gwbl atebol i'r BGC. Ym mhob cyfarfod o'r Grwpiau Peilot anogir aelodau i sôn am eitemau unigol i'w hystyried yn strategol gan y BGC a chaiff y rhain eu hadrodd ar eu rhan gan Gadeiryddion unigol y Grwpiau Peilot. Gan weithio o fewn y cyd-destun strategol a roddir gan y BGC, cyflwynir argymhellion ar gyfer gweithredu i'r BGC ac yntau yn ei dro yn cynnig yr arweiniad a'r gefnogaeth i wneud hynny. Defnyddir rhwydweithiau pellgyrhaeddol y partneriaid i rannu gwybodaeth drwy effaith rhaedru a manteisir ar gyfleoedd sy'n codi trwy gydweithio a gweledigaeth a rennir.

### **Gweithredu Arfaethedig ar gyfer y Dyfodol**

Yn ystod y cyfnod nesaf, bydd partneriaid yn parhau â'u gwaith ar y blaenoriaethau a osodwyd yn y tri phrosiect peilot sy'n seiliedig ar le, fel y cytunwyd gan y BGC. Byddant yn gosod y gwaith hwn yng nghyd-destun yr Asesiad o Lesiant Lleol a gynhaliwyd eleni,

gan barhau i gefnogi'n rhagweithiol yr amcanion llesiant y cytunodd y BGC arnynt ar gyfer y cynllun Llesiant Lleol newydd ar gyfer y cyfnod 2023-28. Cymeradwywyd yr amcanion drafft gan y BGC ar 7 Mawrth 2022, a dyma'r amcanion:

- Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac yn adeiladu ar gryfderau Ceredigion.
- Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau ac yn defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.
- Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gynnal mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.
- Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i alluogi cymunedau i deimlo'n ddiogel ac yn gysylltiedig a byddwn yn hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol ac yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Bydd yr ystod eang o bartneriaid sy'n ymwneud â'r prosiectau peilot sy'n seiliedig ar le yn parhau i gyfrannu at y cynllun llesiant newydd wrth iddo ddatblygu, gan fynd ati'n rhagweithiol i ddefnyddio eu rhwydweithiau i annog cyfranogiad gan breswylwyr a busnesau yn y cynllun ymgysylltu a hwnnw nawr yn dechrau llywio'r gwaith o gynhyrchu'r Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer 2023-28.

## RHAN 4 – Cysylltiadau

### Is-grwpiau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion

Yn ogystal â'r 6 Grŵp Prosiect, ceir Is-Grwpiau sy'n adrodd i BGC Ceredigion. Isod, rhoddir crynodeb o waith yr Is-Grŵp Tlodi, yr Is-Grŵp Adsefydlu Ffoaduriaid a'r Fforwm Dyfodol Dwyieithog.

#### 4.1 Is-grŵp Tlodi BGC Ceredigion: Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi – diweddariad ar gyfer 2021-22

Cyhoeddwyd Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-22 ym mis Awst 2020 fel olynydd i Strategaeth Brwydro yn erbyn Tlodi Ceredigion 2016-20. Cytunwyd y dylid ymestyn Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-22 am flwyddyn arall, hyd at 2023.

Mae Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-22 yn cynnwys tri amcan allweddol, fel y nodir isod, ac mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys 65 o gamau gweithredu, a gyflawnir gan amryw o bartneriaid y BGC:

<b>Tri amcan allweddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-22 Ceredigion</b>
Ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid, <b>dod i ddeall</b> effaith COVID-19, wrth iddi newid, ar y caledi yng Ngheredigion, gan wneud hynny drwy goladu a dadansoddi data.
Cydlynu ac <b>atgyfnerthu gwaith ar y cyd</b> ag asiantaethau sy'n bartneriaid er mwyn hyrwyddo a manteisio ar yr holl help a chymorth sydd ar gael.
<b>Nodi bylchau</b> yn y cymorth sydd ar gael a'r anghenion caledi wrth iddynt newid er mwyn mynd ati i lunio ymyriadau cynnar effeithiol a fydd yn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n fwy cydnerth wrth inni ddygymod ag effaith COVID-19.

Rhennir y Cynllun Gweithredu yn dair colofn wahanol o ran y gwaith gweithredu, sef:

<b>Tair colofn cynllun gweithredu'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi</b>
Colofn 1 – help i'r rhai sy'n dioddef caledi ariannol
Colofn 2 – help i'r rhai sy'n dioddef blinder, straen a gofid
Colofn 3 – sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio gwasanaethau

Defnyddir dangosfyrddau data a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Ceredigion er mwyn ein helpu i fonitro lefelau tlodi yn y sir. Mae'r dangosfyrddau yn monitro dangosyddion poblogaeth ar lefel uchel. Mae'r rhain yn dangos gostyngiad parhaus yn nifer y rhai sy'n

hawlio budd-daliadau, gan gynnwys pobl ifanc sy'n hawlio budd-daliadau oherwydd diweithdra.

Y prif bryderon yn Adroddiad Cynnydd 2021 oedd incwm isel, dyled, anawsterau recriwtio, yn enwedig yn y sector gofal plant a thrafnidiaeth gyhoeddus, a chynnydd mewn problemau iechyd meddwl a llesiant. Mae prisiau eiddo yn parhau i godi ar draws Ceredigion. Mae prisiau tanwydd wedi codi, ac mae angen ystyried y sefyllfa sy'n datblygu, yn enwedig yn sgil y rhyfel yn Wcráin.

## 4.2 Is-grŵp Adsefydlu Ffoaduriaid y BGC

Cyflawnwyd ymrwymiad Ceredigion i adsefydlu 50 o ffoaduriaid yn ffoi rhag y gwrthdaro yn Syria erbyn mis Chwefror 2021. Ystyriwyd bod unigolion a weithiodd gyda Byddin Prydain yn **Affganistan** mewn perygl oherwydd y sefyllfa yno. O'r herwydd, ymrwymodd Cyngor Sir Ceredigion i adsefydlu dau deulu o Affganistan. Cyrhaeddodd un teulu o Affganistan ym mis Rhagfyr ac rydym yn disgwyl i un arall gyrraedd ddechrau Ebrill 2022.

Yn sgil dechrau'r Rhyfel yn Wcráin, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cytuno i gartrefu ffoaduriaid yn y sir. Ar adeg ysgrifennu hwn nid oedd unrhyw ffoaduriaid wedi cyrraedd y sir, naill ai drwy gynllun Cartrefi i Wcráin neu drwy Gynllun Uwch-noddwyr Cymru. Mae disgwyl y byddwn yn gweld ffoaduriaid o Wcráin yn cael eu cartrefu ar draws y sir. Bydd y Groes Goch Brydeinig yn cefnogi adsefydlu'r ffoaduriaid hyn, a Chyngor Sir Ceredigion yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ar ddarparu Canolfannau Croeso ledled Cymru.

## 4.3 Strategaeth y Gymraeg Ceredigion 2018-23: Fforwm Dyfodol Dwyieithog

Oherwydd y Safonau Hybu, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio strategaeth 5 mlynedd yn egluro sut y bydd y Cyngor yn mynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso defnydd ehangach o'r iaith yn yr ardal.

Cyhoeddwyd ail Strategaeth Iaith Ceredigion yn 2018, er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r strategaeth yn egluro sut y bydd y Cyngor ynghyd â sefydliadau partner eraill (aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion) yn mynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg a hybu defnydd ehangach o'r iaith. Yn unol â'r gofyniad, gosodwyd targed ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion erbyn diwedd cyfnod y strategaeth, sef canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn codi i o leiaf 48.5% (cynnydd o tua 1,500 o siaradwyr Cymraeg).

Ar gyfer y strategaeth, cytunodd Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion i ganolbwyntio ar 3 nod strategol, sef:

**Nod Strategol 1:** cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion

**Nod Strategol 2:** cynnal a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sir

**Nod Strategol 3:** sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion.

Mae copi o'r Cynllun Gweithredu i'w gael yma:

<http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/iaith-gymraeg/hyrwyddo-a-hwyluso-r-iaith-gymraeg/>

Mae'r Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn gweithio i sicrhau bod y Strategaeth Iaith yn cael ei chyflawni, ac mae'r aelodau yn cynnwys Swyddogion y Cyngor, ynghyd â Swyddogion o sefydliadau partner sy'n ymroddedig i gydweithio er lles y Gymraeg ar draws y sir.

Oherwydd sefyllfa COVID-19, mae'r Cyngor yn pryderu bod y pandemig wedi gohirio ein cynlluniau ac wedi ein rhwystro rhag cyrraedd ein targed o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a defnyddwyr yr iaith yng Ngheredigion, erbyn diwedd oes y Strategaeth bresennol. Trefnwyd gweithdy ym mis Mawrth i adolygu ein cynnydd mewn perthynas â'r Strategaeth Iaith gyfredol, gan ystyried beth arall sydd angen ei wneud wrth baratoi ar gyfer y Strategaeth nesaf. Gofynnem i bawb roi tystiolaeth lafar ac rydym hefyd wedi gofyn i bob aelod gyflwyno cyfraniadau ysgrifenedig cyn diwedd mis Ebrill.

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd er mwyn ysgogi trafodaeth:

- Ydych chi'n credu bod cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion heddiw?  
Ydw /Nac ydw / parhau'n sefydlog
- Beth sy'n gweithio'n dda?
- Beth yw eich pryderon?
- Beth sydd angen digwydd?

Byddwn yn defnyddio'r ymatebion fel rhan o'r broses i gynnal adolygiad llawn o gyflawniadau'r Strategaeth Iaith gyfredol. Byddwn wedyn yn mynd ati i ddatblygu Strategaeth Iaith ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

#### **4.4 Ymgynghoriadau a Chyflwyniadau Eraill 2021/22**

Yn ogystal â'r prosiectau, y mentrau a'r strategaethau a nodwyd yn yr adroddiad hwn, mae aelodau BGC Ceredigion wedi ystyried a thrafod y canlynol yn ystod 2021/22:

- Rhaglen Bartner Creu Cyfoeth Cymunedol – Adroddiad Terfynol Ionawr 2022
- Cronfa Argyfwng ac Adfer y Gwasanaethau Gwirfoddol – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
- Ailgyssylltu â Natur – Resources for Change Ltd.
- Adolygiad Cymru gyfan ar Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys – Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys Group (JESG)
- Natur a Ni – Pa ddyfodol ydyn ni ei eisiau ar gyfer ein Hamgylchedd Naturiol? – Cyfoeth Naturiol Cymru

